# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Etholiadau a Chofrestru** |
| **DYDDIAD** | **19 Gorffennaf 2023** |
| **ERBYN** | **Mick Antoniw AS, Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad** |

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol, gallaf gadarnhau wrth Aelodau'r Senedd fy mod wedi cynrychioli Llywodraeth Cymru yng nghyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Etholiadau a Chofrestru ar 14 Mehefin.

Cynhaliwyd y cyfarfod yn rhithiol a'i gadeirio y tro hwn gennyf i. Yn bresennol oedd, George Adam ASA, Y Gweinidog dros Fusnes Seneddol, Llywodraeth Yr Alban, Steve Baker AS, Gweinidog Gwladol yn Swyddfa Gogledd Iwerddon Llywodraeth y DU a Barwnes Scott, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol, Llywodraeth y DU.

Roedd y cyfarfod hwn yn gyfle i glywed diweddariad gan Lywodraeth y DU ar weithredu Deddf Etholiadau 2022 ac ar ymgynghoriad Llywodraeth yr Alban ar ddiwygio etholiadol, yn ogystal â rhoi ddiweddariad ar fwriadau Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio etholiadol.

Cyhoeddwyd Datganiad ar y cyd ynghylch y cyfarfod ar 18 Gorffennaf 2023: Communiqués from the Interministerial Group for Elections and Registration (dolen allanol, Saesneg yn unig).

Rydym yn parhau i gydweithio a bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal bob chwarter. Byddaf yn parhau i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r Aelodau.

Caiff y datganiad ei gyhoeddi yn ystod y toriad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau. Os bydd aelodau eisiau i mi wneud datganiad pellach neu ateb cwestiynau ynglŷn â hyn pan fydd y Senedd yn dychwelyd, byddwn yn hapus i wneud hynny.